

Sefydlu fersiwn Gymraeg o'r PROMIS-10

Dr Llinos Haf Spencer, Beryl Cooledge, Delyth Prys, Prifysgol Bangor
Alexander Smith, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



Cyflwyniad

Er gwaethaf yr angen cynyddol am ymwybyddiaeth iaith a diwylliant mewn ymchwil iechyd, mae prinder mesurau ar gael yn y Gymraeg i wella dibynadwyedd a dilysrwydd holiaduron sy'n mesur canlyniadau ar gyfer treialon ac astudiaethau ymchwil a gynhelir yng nghyd-destun dwyieithog Cymru. Mae LLAIS wedi'i hymgorffori yn Uned Treialon NORTHWORTH ac wedi'i ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i nodi, blaenoriaethu a datblygu cyfieithiadau Cymraeg a dilysiadau ieithyddol o fesurau iechyd ar gyfer seilwaith ymchwil ledled Cymru; ac archwilio ffyrdd o sefydlu'r data dilysu seicometrig i archwilio eu hymateb ymysg poblogaethau gwahanol.


Nodau ac amcanion dilysu y PROMIS-10

Blaenoriaethu a sefydlu fersiwn Gymraeg o'r PROMIS-10 drwy:

- Ymgymryd â chyfieithu a dilysu ieithyddol fersiwn Gymraeg y mesur PROMIS-10 er budd y cyd-destun clinigol yn ogystal â chyd-destun ymchwil
- Rhoi y fersiwn Gymraeg o'r mesur PROMIS-10 ar yr adnodd gwe rhyngweithiol, micym.org, i gynorthwyo ei ddefnydd gan glinigwyr ac ymchwilwyr.

Dulliau

Cynhaliwyd proses gam wrth gam gyda chamau rheoli ansawdd a phroffion gwybyddol er mwyn sicrhau bod cywerthedd cysyniadol a semantig yn cael eu cyflawni. Roedd y camau fel a ganlyn. (Gweler <http://www.micym.org/llais/static/translationsCymraeg.html>)



Canfyddiadau

Yn ogystal â chyfieithwyr proffesiynol, terminolegydd iaith a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, rhoddodd deuddeg aelod o gronfa ddata RHOI LLAIS eu sylw ar y fersiwn Gymraeg o'r PROMIS-10 mewn sesiynau grŵp ffocws neu mewn cyfweiliadau wyneb yn wyneb, er mwyn sicrhau eglurder y cwestiynau. Gwnaethpwyd newidiadau i'r geiriad Cymraeg yn seiliedig ar y trafodaethau hyn a sylwadau terfynol y terminolegydd iaith. Dyma rai enghreifftiau:

Cwestiwn	Mesur Cymraeg cyn-derfynol	Cyfieithiad Saesneg	Y fersiwn terfynol	Cyfieithiad Saesneg	Sylw
Global 01, 02, 03, 04, 05, 09r,	Yn gyffredinol	In general	Ar y cyfan	On the whole	Mae 'On the whole' yn gyfystyr ag 'in general', a ffafriwyd 'ar y cyfan' (on the whole) gan y cyfranwyr a'r terminolegydd iaith.
Global 09r	Pa mor dda yr ydych yn cyflawni eich gweithgareddau a dyletswyddau cymdeithasol arferol yn gyffredinol?	How good are you at carrying out your usual activities and normal social duties in general?	Pa mor dda ydych chi'n cyflawni eich gweithgareddau a dyletswyddau cymdeithasol arferol ar y cyfan?	How well do you carry out your usual activities and normal social duties on the whole?	Cafodd 'Yr ydych yn' (you are) ei dalffyrri i 'ydych chi'n' (do you) Mae 'On the whole' yn gyfystyr ag 'in general', a ffafriwyd 'ar y cyfan' (on the whole) gan y cyfranwyr a'r terminolegydd iaith.
Global 06	Yn aml iawn	Very often	Yn llwyr	Completely	Roedd y gair 'Completely' yn y fersiwn wreiddiol Saesneg, felly cafodd 'yn llwyr' ei dderbyn yn y fersiwn Gymraeg.

Casgliad

Ers mis Mehefin 2018, mae'r PROMIS-10 wedi bod ar gael i ymarferwyr ac ymchwilwyr ei ddefnyddio am ddim yng Nghymru. Y gobaith yw y bydd y mesur hwn o fudd i hwyluso cyfranogwyr i gymryd rhan yn y Gymraeg. Mae gwaith dilysu ieithyddol LLAIS yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at sefydlu systemau cadarn i sicrhau cynnal a chyflwyno treialon clinigol o'r ansawdd uchaf sy'n cwrrd â gofynion rheoliadol a llywodraethu wrth hyrwyddo dulliau methodolegol o arwyddocâd rhyngwladol. Hyd yn hyn, rhestrir 43 o fesurau iechyd ar wefan micym.org ac mae tua 40 o'r rhain wedi'u dilysu'n ieithyddol gan LLAIS, Uned Treialon NORTHWORTH gyda chymorth a chyfraniad gwerthfawr gan aelodau cronfa ddata RHOI LLAIS <http://nworth-ctu.bangor.ac.uk/llais/rhoi-llais.php>

Blaenoriaethau mesurau iechyd i'w cyfieithu i'r Gymraeg

Blaenoriaethau

Rhoddodd yr arolwg mesurau iechyd Cymraeg a gynhaliwyd gan LLAIS (Roberts et al, 2013) syniad o flaenoriaethau gweithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr gofal iechyd o ran fersiynau Cymraeg o fesurau iechyd. Er hynny, nid oedd y rhestr hon yn gyflawn o bell ffordd ac, o ganlyniad, mae LLAIS yn parhau i ymchwilio i'r gofynion.

Dilysu ieithyddol

Er mwyn sicrhau cywerthedd technegol, ieithyddol a chysyniadol mesurau iechyd, datblygwyd nifer o brotocolau yn seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol i arwain y broses gyfieithu (Wild et al., 2005; MAPI, 2005).

Dilysu seicometrig

Unwaith mae mesur wedi ei gyfieithu, dylid ailsefydlu ei nodweddion seicometrig er mwyn sicrhau bod y raddfa'n gymaradwy â'r mesur gwreiddiol. Mae Roberts et al., (2012) yn disgrifio sut mae astudiaeth dilysu seicometrig o BDI-II Cymraeg wedi ei ymgorffori mewn treial clinigol a gynhaliwyd gan NORTHWORTH (FOLATED).

Tudalennau 1 a 2 o fersiwn
Gymraeg y PROMIS-10.
Ar gael i'w lawr lwytho o wefan
micym.org



Logo gwefan micym.org



Dilynwch @micymraeg am wybodaeth diweddar am fesurau Cymraeg.

Cyfeiriadau

- Roberts G, Roberts S, Whitaker R, Tranter S, Prys D, Owen H, Tranter R, Sylvestre Y a Bedson E (2012)** Enhancing rigour in the validation of patient reported outcome measures (PROMs): bridging linguistic and psychometric testing. *Health and Quality of Life Outcomes* 10:64.
- Roberts G, Whitaker, Rh, Hoare, Z, Hunnisett, D a Williams M (2013)** Welsh health measures scoping review and survey. [Micym.org/llais/static/report.pdf](http://micym.org/llais/static/report.pdf)
- Roberts G a Rogowski, C (2015)** The Welsh language version of the Alzheimer's Society Cognitive Assessment Toolkit. *Faculty of the Psychology of Older People (FPOP) Newsletter. No. 129. The British Psychological Society. Division of Clinical Psychology.*
- Mapi Research Institute (2005)** Guidelines for the linguistic validation of a patient-reported outcome measure (PROM). Lyon: Mapi Research Institute.
- Wild D, Grove A, Martin M, Eremenco S, McElroy S, Verjee-Lorenz A a Erikson P (2005)** Principles of good practice for the translation and cultural adaptation process for patient-reported outcomes (PRO) measures: Report of the ISPOR task force for translation and cultural adaptation. *Value in Health*, 8 (2), 94-104.

Cysylltwch â:

Beryl Cooledge
Cyfarwyddwr LLAIS
neu
Dr Llinos Haf Spencer
Swyddog Ymchwil LLAIS
Uned Dreialon NORTHWORTH Trials Unit, Y Wern
Safle'r Normal Site, Prifysgol Bangor University
Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ
Ffôn: 01248 383153
E-bost: B.Cooledge@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 38 3171
E-bost: L.Spencer@bangor.ac.uk